**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)**

**Y Bil Data (Defnydd a Mynediad)**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Data (Defnydd a Mynediad) ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi Senedd y DU ar 23 Hydref 2024. Gosodais LCM ar 02 Ionawr 2025 ac LCM Atodol (SLCM) ar 12 Mawrth 2025.

3. Ar 25 Mawrth 2025, cyflwynwyd nifer o welliannau gan y llywodraeth i'r Bil ar gyfer cam adrodd Tŷ'r Cyffredin, nad oes dyddiad ar ei gyfer wedi'i gadarnhau eto. Mae'r gwelliannau hyn yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â materion datganoledig, a ddisgrifir ym mharagraffau 8 i 20 isod.

4. Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus yn Nhy'r Cyffredi, i'w weld yn: Y Bil Data (Defnydd a Mynediad)

## Amcan(ion) y Polisi

5. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw harneisio pŵer data er lles twf yr economi, i gefnogi llywodraeth ddigidol fodern, a gwella bywydau pobl. Mae'n nodi bod y Bil wedi'i gynllunio i gyflawni'r tri amcan hyn gyda mesurau wedi'u cynnwys i ddechrau cyflawni ei hymrwymiad i wasanaethu'r cyhoedd ym Mhrydain yn well trwy wyddoniaeth a thechnoleg.

## Crynodeb o'r Bil

6. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:
    - caniatáu ar gyfer rhannu data cwsmeriaid yn ddiogel, e.e. data a ddelir gan ddarparwr cyfathrebu neu ddarparwr gwasanaethau ariannol, ar gais y cwsmer, gyda darparwyr trydydd parti awdurdodedig.
    - sefydlu strwythur deddfwriaethol ar gyfer darparu gwasanaethau dilysu digidol yn y DU.
    - darparu fframwaith deddfwriaethol i gefnogi gweithrediad y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol.

*[1] Noder, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, rydym yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel "Senedd Cymru" y tro cyntaf ac fel "y Senedd" ar ôl hynny oni fydd y cyd-destun yn nodi fel arall.*

- newid y ffordd y cofrestrir genedigaethau a marwolaethau yng Nghymru a Lloegr, er mwyn gallu symud o system bapur i gofrestru electronig.
- newid rhannau o fframwaith diogelu data a phreifatrwydd y DU i gynnal safonau diogelwch uchel, gan ddelio â diffyg eglurder y ddeddfwriaeth bresennol sy'n faen tramgwydd rhag datblygu a defnyddio technolegau newydd yn ddiogel.
- hwyluso llif data personol a'r defnydd ohono at ddibenion gorfodi'r gyfraith a diogelwch y wlad.
- diwygio'r rheoleiddiwr, y Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys ei strwythur llywodraethu, ei ddyletswyddau, ei bwerau gorfodi, ei ofynion adrodd a'r prosesau cwyno am ddiogelu data a'i ddatblygiad o godau ymarfer statudol.
- rhoi hyblygrwydd i'r Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan allu penderfynu ar y broses orau i'w dilyn ar gyfer penodi'r trwyddedai fydd yn olynu i ddarparu gwasanaethau cyfathrebu mesuryddion clyfar.
- estyn y pwerau rhannu data o dan adran 35 o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 i gynnwys busnesau.
- diwygio Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 i'w gwneud yn ofynnol i OFCOM, pan gaiff ei hysbysu o farwolaeth plentyn gan y Crwner (neu'r 'Procurator Fiscal' yn yr Alban), gyhoeddi hysbysiad gwybodaeth i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein penodedig sy'n gofyn iddynt gadw am gyfnod penodedig wybodaeth benodol ynghylch y gwasanaeth a ddefnyddiwyd gan y plentyn fu farw.
- creu fframwaith sy'n caniatáu i ymchwilwyr gael at ddata sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein a gedwir gan gwmnïau technoleg.
- cadw gwybodaeth fiometrig, gan gynnwys yr hyn a geir pan fydd partneriaid rhyngwladol yn rhannu.
- diweddaru rheoliadau i sicrhau bod fframwaith cyfreithiol gwasanaethau ymddiriedaeth y DU yn parhau i weithredu'n effeithiol.

**Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r LCM cyntaf**

7. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi parhau i fod mewn cysylltiad rheolaidd ar y Bil, gan gynnwys rhannau penodol yn ymwneud â Mynediad at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau, Gwasanaethau Gwirio Digidol a'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol (NUAR).

8. Cafodd y gwelliannau canlynol gan y llywodraeth, a gyflwynwyd ar 25 Chwefror, eu hasesu gan Lywodraeth Cymru fel rhai sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd:
   - Gov 1, sy'n gwella Rhan 3, cymal 56 - Cofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol: Cymru a Lloegr
   - Gov 2, Gov 3 a Gov 4, sy'n gwella diwygio Rhan 3, cymal 57 - Gwybodaeth am gyfarpar: Cymru a Lloegr
   - Gov 5 sy'n dileu'r diwygiadau i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (NRSWA 1991) yn adran 80(8) a (9) a oedd wedi dirymu

Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005 a chymhwyso Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Lloegr) 2002 i Gymru

9. Yn dilyn dadansoddiad cyfreithiol o oblygiadau'r gwelliannau newydd hyn, ystyriaf fod gofyn gosod yr SLCM hwn gerbron y Senedd am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 10 i 20 isod.

Gwelliant Gov 1, cymal 56 - Cofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol: Cymru a Lloegr

10. Mae Rhan 3 o'r Bil – Cofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol – yn diwygio NRSWA 1991, gan alluogi creu'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol (NUAR), map digidol o bibellau a cheblau tanddaearol, a ddatblygwyd gan y Comisiwn Geo-ofodol.

11. Mae Cymal 56 yn cyflwyno rhan newydd (Rhan 3A) yn NRSWA 1991 sy'n ymdrin â manylion yr NUAR arfaethedig. Mae'n cynnwys nodi'r data i'w rannu, sicrhau bod yr wybodaeth ynddi ar gael, ffurf y gofrestr a'r ffioedd a godir a'r wybodaeth a ddarperir gan ymgymerwyr.

12. Nodwyd bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Rhan 3 o'r Bil, gan gynnwys cymal 56, yn yr LCM a osodwyd ar y Bil ar 2 Ionawr a oedd yn nodi bod gan Weinidogion Cymru gymhwysedd gweithredol mewn perthynas â NRSWA 1991 (ac eithrio a.167(3)) yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999/672 ac Atodlen 1 iddo. Nid oes unrhyw faterion perthnasol sydd wedi'u cadw yn ôl wedi'u nodi, fel y rheini a ddisgrifir yn Atodlen 7A i GoWA 2006.

13. Mae Gwelliant Gov 1 yn darparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan Ran 3A o NRSWA 1991 (fel y'i mewnosodwyd gan y cymal hwn) mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf o'r Senedd.

14. Gan fod gwelliant Gov 1 yn diwygio cymal 56 trwy wneud darpariaeth am y tro cyntaf mewn perthynas â gofyn i gael cydsyniad wrth wneud rheoliadau, mae angen cydsyniad deddfwriaethol.

Gwelliannau Gov 2, Gov 3 a Gov 4, cymal 57 - Gwybodaeth am gyfarpar: Cymru a Lloegr

15. Mae Cymal 57 yn diwygio NRSWA 1991 i roi dyletswyddau newydd ar ymgymerwyr i gadw cofnodion a rhannu gwybodaeth am gyfarpar ar strydoedd; a gwneud diwygiadau canlyniadol i'r newidiadau hynny.

16. Nodwyd bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Rhan 3 o'r Bil, gan gynnwys cymal 57, yn yr LCM a osodwyd ar y Bil ar 2 Ionawr a oedd yn nodi bod gan Weinidogion Cymru gymhwysedd gweithredol mewn perthynas â NRSWA 1991 (ac eithrio a.167(3)) yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau)

1999/672 ac Atodlen 1 iddo. Nid oes unrhyw faterion perthnasol sydd wedi'u cadw yn ôl wedi'u nodi, fel y rheini a ddisgrifir yn Atodlen 7A i GoWA 2006.

17. Mae gwelliant Gov 2, Gov 3 a G4 yn diwygio cymal 57, fel a ganlyn:
    - Mae Gwelliant Gov 2 yn darparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan adran 79 o NRSWA 1991 mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â chyfarpar ar strydoedd yng Nghymru.
    - Mae Gwelliant Gov 3 yn darparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan adran 80 o NRSWA 1991 mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â chyfarpar ar strydoedd yng Nghymru.
    - Mae gwelliant Gov 4 yn ganlyniadol i welliant Gov 3. Mae'r gwelliant hwn yn dileu'r gofyniad i ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn y gellir gwneud rheoliadau o dan adran 80 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991.

18. Gan fod gwelliannau Gov 2, Gov 3 a Gov 4 yn diwygio cymal 57 drwy wneud darpariaeth am y tro cyntaf mewn perthynas â gofyn i gael cydsyniad wrth wneud rheoliadau o dan adran 79 ac 80 yn y drefn honno, mae angen cydsyniad deddfwriaethol.

<u>Gwelliant Gov 5, cymal 57 - Gwybodaeth am gyfarpar: Cymru a Lloegr</u>

19. Mae gwelliant Gov 5 yn dileu darpariaeth o fewn cymal 57 sy'n dirymu Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005 a hefyd yn dileu'r ddarpariaeth sy'n cymhwyso Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Lloegr) 2002 i Gymru. Aseswyd o'r blaen bod y ddarpariaeth hon yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol a chafodd ei chynnwys yn yr LCM a osodwyd ar y Bil ar 2 Ionawr.

20. Effaith y gwelliant hwn yw dychwelyd y sefyllfa ddeddfwriaethol i'r status quo ar gyfer y ddau ddarn o is-ddeddfwriaeth. Ar ôl dileu is-adrannau (8) a (9) cymal 57, gofynnir i'r Senedd nodi felly nad oes angen cydsyniad fel y'i nodir yn yr LCM a osodwyd ar 2 Ionawr ar gyfer y ddarpariaeth honno mwyach.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

21. Darparwyd crynodeb o farn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad mewn perthynas â Rhan 3 o'r Bil yn yr LCM cyntaf a osodwyd ar 2 Ionawr ac fe’i gwelir isod hefyd. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau mai dyma ei safbwynt o hyd ac mae'n berthnasol i'r gwelliannau hyn.

22. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y darpariaethau cyffredinol o dan Ran 1, Cael at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau, cymalau 1-28 wedi'u cadw yn ôl o dan y cymalau diogelu defnyddwyr yn Atodlen 7A Adran C6 o GOWA 2006; ond eu bod mewn maes datganoledig o safbwynt cwsmeriaid busnes. At hynny, mae'r darpariaethau 'Data Clyfar'

wedi'u cadw yn ôl lle maent yn gymwys i'r sector gwasanaethau ariannol, gan y cymalau gwasanaethau ariannol (Paragraff 17 o Atodlen 7A i GoWA 2006). Mae Llywodraeth y DU yn ystyried hefyd bod y pŵer codi ardoll o dan gymal 12, Ardollau yn fater sydd wedi'i gadw yn ôl o dan y cymalau ar bolisi economaidd ac arianyddol cyllidol - Paragraff 15 o Atodlen 7A i GoWA 2006.

23. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod darpariaethau Rhan 2 y Gwasanaethau Dilysu Digidol yn faterion wedi'u cadw yn ôl o dan y gwasanaethau rhyngrwyd sydd wedi'u cadw'n ôl (Paragraff 84 o Atodlen 7A i GoWA 2006). Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y broses cydsyniad deddfwriaethol yn effeithio ar y canlynol:

- Cymal 45, Pŵer awdurdod cyhoeddus i ddatgelu gwybodaeth i berson cofrestredig – sy'n ymwneud â phwrpas datganoledig, ac sy'n dod o dan y broses cydsynio deddfwriaethol gan ei fod wedi'i gynnwys i ddiogelu natur gyfrinachol yr wybodaeth a gedwir gan Awdurdod Cyllid Cymru.

- Cymal 47, Gwybodaeth a ddatgelir gan Awdurdod Cyllid Cymru - sy'n gofyn am LCM o dan Ganllawiau Cymru ar Ddatganoli (DGNW) gan ei fod yn addasu swyddogaethau / rhoi swyddogaethau i Awdurdodau Datganoledig Cymru.

- Cymal 49, Cod ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth - sy'n gofyn am LCM o dan y DGNW gan ei fod yn addasu swyddogaethau / rhoi swyddogaethau i Awdurdodau Datganoledig Cymru.

24. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 3, y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol, cymalau 56, 57, 60(1) ac Atodlen 1 gan eu bod yn newid cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

25. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Rhan 7, cymal 121, Datgelu gwybodaeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i ymgymeriadau yn well.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil**

26. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn gefnogol i fwriad polisi Llywodraeth y DU y tu ôl i'r Bil, a gafodd ei grynhoi yn yr LCM cyntaf a osodwyd ar y Bil.

27. Mae'r mwyafrif llethol o ddarpariaethau'r Bil yn ymwneud â'r materion a gadwyd yn ôl o dan y cymalau ar ddiogelu data, y cymalau ar werthu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i ddefnyddwyr, y cymalau ar delegyfathrebu a'r cymalau ar gofrestru genedigaethau, marwolaethau ac addoldai, fel y'u nodwyd yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

28. Amlinellodd yr LCM blaenorol bryderon mewn perthynas â goblygiadau datganoledig y darpariaethau a ganlyn:
    - Rhan 1, Mynediad at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau – cymalau 1-13 ac 18-26;
    - Rhan 2, Gwasanaethau Gwirio Digidol, cymal 49; a
    - Rhan 3 - Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol, cymalau 56, 57, 60(1) ac Atodlen 1.

29. Mae trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar y materion hyn, ar lefel Weinidogol a swyddogol, bellach wedi dod i ben. Gallaf roi gwybod i'r Senedd nawr, o ganlyniad i'r trafodaethau hyn, bod y gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i Ran 3 o'r Bil ar 25 Mawrth 2025 (a amlinellir ym mharagraffau 8 i 20 uchod) yn darparu diogelion cyfansoddiadol ynghylch darpariaethau o fewn y rhan hon o'r Bil.

30. Y trywydd deddfwriaethol a gymerwyd yn Rhan 3 o'r Bil barodd y pryder mwyaf i Lywodraeth Cymru o safbwynt cyfansoddiadol, yn enwedig gan fod hwn yn faes o'r Bil lle mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno'n llwyr bod angen cydsyniad deddfwriaethol arno.

31. Fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol, roedd Rhan 3 y Bil yn cynnwys dwy ddarpariaeth ymgynghori ar wahân yn Rhan 3 y Bil, roedd yn darparu pwerau cydamserol heb fecanwaith cydsynio ac yn dirymu Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005, gan ymestyn y rheoliadau cyfatebol yn Lloegr i Gymru.

32. Gyda'i gilydd, mae gwelliannau Gov 1 i Lywodraeth 5 a gyflwynwyd ar 25 Mawrth wedi lleddfu pryderon cyfansoddiadol Llywodraeth Cymru ynghylch Rhan 3 o'r Bil fel a ganlyn:
    - Mae'r ddarpariaeth ymgynghori o dan gymal 56 wedi'i newid i fod yn fecanwaith cydsynio;
    - mae'r ddarpariaeth ymgynghori o dan gymal 57(3) wedi'i newid i fod yn fecanwaith cydsynio; a
    - mae'r ddarpariaeth ymgynghori o dan gymal 57(4) wedi'i newid i fod yn fecanwaith cydsynio.

33. Yn ogystal, mae cymal 57, is-adrannau (8) a (9) wedi'u dileu, gan gadw Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005, yn hytrach na dirymu a chymhwyso'r darpariaethau Lloegr yn unig cyfatebol i Gymru a Lloegr.

*<u>Digonolrwydd Data'r UE</u>*

34. Mae pryderon yn parhau mewn perthynas â'r effaith y gallai'r Bil ei chael ar statws Digonolrwydd Data'r DU, fel a nodir yn yr LCM cyntaf a osodwyd ar y Bil.

35. Ar 18 Mawrth, cynigiodd Comisiwn yr UE estyn ei benderfyniadau digonolrwydd tan 27 Rhagfyr 2025. Bwriad yr estyniad yw rhoi digon o amser i'r Comisiwn gwblhau ei adolygiad o'r penderfyniadau digonolrwydd unwaith y bydd y Bil wedi cwblhau ei daith trwy Senedd y DU.

## Goblygiadau ariannol

36. *Rhan 3, Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol* - Bwriad Llywodraeth y DU yw ariannu costau rhedeg yr NUAR drwy ffioedd a delir gan y rhai sy'n elwa o'r gwasanaeth (ac nid y trethdalwr). Trwy reoliadau, gall yr Ysgrifennydd Gwladol greu cynllun ffioedd a gallai ofyn i ymgymerwyr sydd ag offer ar stryd dalu ffioedd i ariannu gwasanaeth NUAR. Bwriedir targedu ffioedd i dalu am weithredu'r gwasanaeth ac nid i gynhyrchu refeniw ychwanegol.

## Casgliad

37. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddod â'r darpariaethau hyn i rym.

38. Rwy'n cydnabod nad oedd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'r dadansoddiad datganoli ynghylch Rhan 1 a Rhan 2 o'r Bil hwn. Fodd bynnag, mae'r gwelliannau a gyflwynwyd i Ran 3 o'r Bil ar 25 Mawrth, ac sy'n destun y SLCM hwn, yn dangos consesiwn arwyddocaol gan Lywodraeth y DU, ac yn fy marn i bydd yn sicrhau y parheir i ddiogelu buddiannau datganoledig wrth ddatblygu rhagor o is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chreu'r NUAR.

39. Felly, i gydnabod effeithiau cadarnhaol y Bil hwn, a'r diogelion cyfansoddiadol a gyflwynwyd yn Rhan 3, rwy'n argymell bod y Senedd yn cefnogi'r Bil hwn ac yn rhoi ei chydsyniad.

**Rebecca Evans AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**3 Ebrill 2025**